SESIWN 1: A ALL GWYBODAETH FOD YN HARDD?

Ystod oedran: 11-14 oed

Amlinelliad

Yn y sesiwn hwn, cyflwynir y dysgwyr i gelfyddyd ffeithluniau. I ddechrau bydd yn rhaid iddynt geisio dyfalu dibenion posibl un dyluniad â'r labeli eglurhaol wedi'u tynnu ymaith. Yna bydd y dysgwyr yn gwylio cyflwyniad gan y dylunydd, y newyddiadurwr data David McCandless, a fydd yn ysgogi trafodaeth ynglŷn â pham y mae cyfathrebu gwybodaeth yn y ffordd weledol hon wedi dod yn fwy a mwy poblogaidd. Yn olaf, bydd y dysgwyr yn dewis ffeithlun arall gan McCandless i'w ddadansoddi a'i ddehongli'n fanylach, gan ddefnyddio'r awgrymiadau ar Daflen Gweithgaredd 1.2 fel canllaw.

Amcanion dysgu

Bydd y dysgwyr yn gwneud y canlynol:

- Dechrau datblygu dealltwriaeth o elfennau dylunio ffeithlun
- Gwrando ar ddylunydd yn siarad am ei waith ei hun
- Dadansoddi dull ac ystyr gwaith dylunydd cyfoes o Brydain, David McCandless.

Deilliannau dysgu

Bydd y dysgwyr yn dysgu:

- Dadgodio ffeithlun gwag ar sail cliwiau a chysylltiadau gweledol
- Gwerthfawrogi sut a pham y mae dylunwyr yn defnyddio ffeithluniau i wneud synnwyr o symiau mawr o ddata
- Egluro effaith gwahanol ddewisiadau dylunio (ar Daflen Gweithgaredd 1.2).

Cwestiynau allweddol

- Pam y mae newyddiadurwyr data, fel McCandless, yn dewis adrodd am ystadegau trwy ddulliau graffig?
- Pa wybodaeth sy'n addas/sydd ddim yn addas ar gyfer dulliau graffig? Pam/ Pam ddim?
- Pa ddewisiadau creadigol y mae McCandless wedi eu gwneud ynglŷn â lliw, teipograffeg, gofod a gwead?
- Sut y mae hyn yn effeithio ar y ffordd rydych yn darllen y graffigyn?

Adnoddau

- Mynediad at gyfrifiadur i bob dysgwr (dewisol)
- Taflunydd a system sain
- Sioe sleidiau Sesiwn 1
  - Argraffu'r tudalennau nodiadau
- Canllaw i Athrawon Sesiwn 1, gan gynnwys:
  - Taflen Gweithgaredd 1.2 (un i bob pâr)
  - Taflen Gweithgaredd 1.2, Copi'r Athro

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Cyn y Sesiwn

- Argraffwch ddigon o gopïau o *Sut y mae dylunwyr yn gwneud yr holl wybodaeth mor hardd? (*Taflen Gweithgaredd 1.2) ar gyfer gweithio mewn parau.
- Os yw'n bosibl: gwnewch yn siŵr bod gennych fynediad i'r Rhyngrwyd fel bod eich dysgwyr yn gallu edrych ar opsiynau amrywiol cyn dewis dyluniad iddynt hwy eu hunain yng Ngweithgaredd 1.2. Os nad oes gennych fynediad i'r Rhyngrwyd, dewiswch enghraifft eich hun rydych yn meddwl y byddai o ddiddordeb i'ch dosbarth o http://www.informationisbeautiful.net.
- Gosodwch y taflunydd/sioe sleidiau:
  - Agorwch yr hyperddolen ar sleid 6 (trwy glicio ar y cyfeiriad gwe â botwm ochr dde'r llygoden), er mwyn iddo gael amser i lwytho.
  - Gwnewch yn siŵr bod eich system sain yn gweithio.
  - Gwnewch yn siŵr bod y testun ar sleid 3 i'w weld o gefn y dosbarth. Os nad yw, gallech argraffu copi tudalen lawn o'r sleid neu ofyn i unigolion ddod at y bwrdd i ddarllen rhannau penodol.

Gweithgaredd 1.1

Nid celfyddyd haniaethol yw hyn!

- Dilynwch y nodiadau ar sleidiau 2–5 i arwain y dysgwyr trwy'r gweithgaredd hwn.
- Cyn cael eu cyflwyno i gelfyddyd ffeithluniau, gofynnir i'r dysgwyr ddadansoddi dyluniad gan David McCandless â'r labeli eglurhaol wedi'u tynnu ymaith. Nod y gweithgaredd hwn yw tynnu sylw'r dosbarth at botensial esthetig cipio a chyfathrebu setiau data cymhleth. Yna gellir cymharu rhagfynegiadau a wnaethpwyd ynglŷn ag ystyr y gwaith â disgrifiad y dylunydd ei hun o'i ddiben.
- Dangoswch sleid 6 sy'n cysylltu â sgwrs gan David McCandless. Mae McCandless yn egluro'r diben a'r prosesau sydd y tu ôl i'w ddyluniadau. Er mai pum munud cyntaf y sgwrs TED hon (18 munud 10 eiliad) yw'r unig ran y mae'n hanfodol ei gwylio ar gyfer amcanion y sesiwn hwn, gall athrawon ddewis dangos mwy, gan ddibynnu ar allu'r dysgwyr a faint o amser sydd ar gael.

Gweithgaredd 1.2

Sut y mae dylunwyr yn gwneud yr holl wybodaeth mor hardd?

- Os yw pob un o'r dysgwyr yn gallu cael mynediad at gyfrifiadur a mynd ar y Rhyngrwyd, cyfeiriwch hwy mewn parau at wefan David McCandless http://www.informationisbeautiful.net. Rhowch bum i ddeng munud iddynt edrych ar y safle. NEU os eich cyfrifiadur chi yw'r unig gyfrifiadur sydd gennych, defnyddiwch y taflunydd i ddangos yr enghraifft rydych wedi'i dewis ymlaen llaw 'nawr.
- Dosbarthwch Daflen Gweithgaredd 1.2 *Sut y mae dylunwyr yn gwneud yr holl wybodaeth mor hardd?* a darllenwch trwy'r cwestiynau fel dosbarth i wneud yn siŵr bod pawb yn deall.
- Dylech fonitro cynnydd y dysgwyr am o leiaf 20 munud tra byddant yn dadansoddi ac yn dehongli arwyddocâd dewis y dylunydd o liw, teipograffeg, gofod a gwead.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

- Ailgyfeiriwch unrhyw ddysgwyr sydd wedi crwydro oddi wrth y dasg neu sy'n cael anhawster trwy ddarparu syniadau o Gopi'r Athro o'r daflen waith. Gellir ysgrifennu diffiniadau ar y bwrdd i bawb gael eu darllen a'u copïo.

Syniadau pellach

- Os bydd unrhyw barau'n gorffen yn gynnar, gallent wneud un o'r canlynol:
  - Defnyddio pensiliau lliw i ddrafftio dyluniad arall ar gyfer yr un data a ddefnyddiwyd yn y ffeithlun a ddadansoddwyd ganddynt yng Ngweithgaredd 1.2.
  - Defnyddio'r un tabl i ddadansoddi ffeithlun gwahanol yn cynrychioli thema o'u dewis trwy ddefnyddio Google a theipio *"infographic+music"* neu *"infographic+sport"* neu *"infographic+fashion"*.

Sylwer: Mae ffynonellau gwybodaeth a syniadau ar gyfer gwahaniaethu i'w gweld yn nodiadau'r sioe sleidiau.

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB
Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect ei gyflawni.

Sut y mae dylunwyr yn gwneud yr holl wybodaeth mor hardd?

Taflen gweithgaredd 1.2

Teitl y ffeithlun o'ch dewis	
Pam y gwnaethoch chi ddewis hwn?	
Heb edrych ar nodiadau'r dylunydd, beth fyddech chi'n dyfalu y mae'r graffigyn hwn yn ei gynrychioli?	
Beth fyddech chi'n ei newid ynglŷn â'r dyluniad i'w wneud yn haws i'w ddeall a/neu yn harddach?	

	Pa ddewisiadau creadigol y mae McCandless wedi'u gwneud ynglŷn â'r elfen ddylunio hon?	**Pa effaith y mae hyn yn ei gael ar ystyr ac effaith y gwaith?**
Lliw		
Teipograffeg		
Gofod		
Gwead	Awgrym: Yn nhermau dylunio, mae *gwead* yn cyfeirio at greu dyfnder yn hytrach nag ansawdd arwyneb	

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Sut y mae dylunwyr yn gwneud yr holl wybodaeth mor hardd?

Taflen gweithgaredd 1.2
Copi'r athro

Teitl y ffeithlun o'ch dewis	
Pam y gwnaethoch chi ddewis hwn?	
Heb edrych ar nodiadau'r dylunydd, beth fyddech chi'n dyfalu y mae'r graffigyn hwn yn ei gynrychioli?	
Beth fyddech chi'n ei newid ynglŷn â'r dyluniad i'w wneud yn haws i'w ddeall a/neu yn harddach?	

	Pa ddewisiadau creadigol y mae McCandless wedi'u gwneud ynglŷn â'r elfen ddylunio hon?	**Pa effaith y mae hyn yn ei gael ar ystyr ac effaith y gwaith?**
Lliw	• Dirlawnder • Didreiddedd / tryloywder • Atgofus • Cyflenwol/cydnaws • Categoreiddio	• Cysylltiadau emosiynol a/neu ddiwylliannol y lliwiau a ddewiswyd
Teipograffeg	• Ffont – math a maint • Fformat – wedi'i unioni, unioni ar y chwith neu unioni ar y dde • Gorgyffwrdd – creu bylchiad perffaith	• Hawdd i'w ddehongli
Gofod	• Cyfansoddiad • Man canolog • Aliniad / Llinellau grid • Cydbwysedd – gofod negatif a phositif • Gwaedu	• Pan fydd gwrthrychau yn gwaedu tros ffrâm y dudalen gall awgrymu ehangder, anfeidroldeb neu deimlad o gael eich llorio. • Ar y llaw arall, mae cynnwys sy'n gwbl gynwysedig yn awgrymu trefn, cytgord neu reolaeth
Gwead	Awgrym: Yn nhermau dylunio, mae *gwead* yn cyfeirio at greu dyfnder yn hytrach nag ansawdd arwyneb • Yn gorgyffwrdd • Graddfa gymharol, lleoliad Persbectif llinol • Gwastadrwydd	• Rhoi'r argraff o ddyfnder • Diddordeb gweledol • Cain • Fel y dywedodd David McCandless yn y sgwrs TED: *"You start to have a different relationship to the numbers ... [the data becomes] a landscape or a map."*

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.